Disgrifiad Swydd

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

RHEOLWR GWEITHREDIADAU CYSYLLTU Â GWAITH

Band: .....Band 5.1 i 5.8

Cyflog: .....£33,797.02 i £38,822.15

Cytundeb: .....Parhaol

Oriau gwaith: .....Llawn amser, 37 awr yr wythnos

Lleoliad gweithio:.....Wrecsam neu Sir y Fflint - swyddfa ganol tref i'w chadarnhau

Yn atebol i:..... Pennaeth Contractau a Pherfformiad

Yn gyfrifol am: .....Arweinydd/arweinwyr y Tîm Cysylltu â Gwaith

Cefndir

Mae Cysylltu â Gwaith yn rhaglen newydd gan lywodraeth y DU sydd â'r nod o helpu pobl i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, yn enwedig pobl sydd ag anableddau, cyflyrau iechyd ac anghenion cymhleth.

Diben y Swydd

Bydd y Rheolwr Gweithrediadau Cysylltu â Gwaith yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyflogaeth â chymorth o ansawdd da sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i Gyfranogwyr, yn bodloni safonau cywirdeb ac yn cyflawni/rhagori ar dargedau perfformio.

Chi fydd yn gyfrifol am oruchwylio darpariaeth gwasanaeth, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr a datblygu cysylltiadau gwaith cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cyflogwyr, Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol, gweithwyr proffesiynol iechyd, ac ati i sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i wreiddio'n dda o fewn y gymuned.

Chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdodau comisiynu.

Cyfrifoldebau

- Darparu goruchwylio gan reolwr i'r gwasanaeth, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol ag egwyddorion cyflogaeth â chymorth, ei fod yn bodloni safonau cywirdeb ac yn cyflawni/rhagori ar dargedau perfformio.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf y gwasanaeth ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdod, mynd i gyfarfodydd adolygu a drefnwyd, egluro gofynion y contract, cydweithio ar weithgareddau a rennir (e.e. ymgysylltu â chyflogwyr) a chasglu/cyflwyno'r holl adroddiadau gwasanaeth yn ôl yr angen.
- Adolygu data gwasanaeth a thueddiadau yn rheolaidd i nodi unrhyw amrywiadau mewn proffil (e.e. perfformiad uwch neu is) a gweithio'n rhagweithiol gyda chydweithwyr i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg mewn ffordd amserol.
- Darparu cymorth rheoli llinell ac arweinyddiaeth gymhellol i'r Arweinydd/Arweinwyr Tîm i sicrhau bod ganddynt yr hyfforddiant, yr adnoddau a'r cymorth gweithredol o ddydd i ddydd i ddarparu gwasanaeth sydd o ansawdd da yn gyson.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli cysylltiadau strategol â rhanddeiliaid allweddol, e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol, darparwyr iechyd, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol ac ati i sicrhau eu cyfranogiad gweithredol yn y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaeth, gan sefydlu dulliau atgyfeirio a phrotocolau gweithio ar y cyd lle bo'n briodol.
- Gweithio'n agos gyda Rheolwr Datblygu Busnes a Phartneriaethau RCS, gan gefnogi rhaglen helaeth o ymgysylltu â chyflogwyr, creu cysylltiadau â chyrff cyflogi posibl, gan nodi cyfleoedd cyflogaeth posibl a nodi anghenion hyfforddiant/cymorth (e.e. recriwtio cynhwysol)
- Cynnal asesiadau o wasanaeth ac adolygiadau o gynlluniau gweithredu i sicrhau cydymffurfedd â safonau SEQF (Fframwaith Ansawdd Cyflogaeth â Chymorth) a chywirdeb IPS y DU, gan gydweithio gyda chydweithwyr i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella.
- Cefnogi Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu RCS gyda chyflawni gweithgareddau marchnata a hyrwyddo, drwy greu astudiaethau achos, cyflwyno mewn digwyddiadau a chreu postiadau cyfryngau cymdeithasol.

Cyfrifoldebau

- Mabwysiadu agwedd ragweithiol ar wella gwasanaeth, gan ddefnyddio data, archwiliadau, adborth Cyfranogwyr ac adolygiadau gwasanaeth mewnol i nodi beth sy'n gweithio'n dda a lle y mae angen gwelliannau, gan weithio gydag aelodau tîm i ddatblygu cynlluniau gweithredu, a'u rhoi ar waith.

<u>Datblygiad Proffesiynol</u>

- Sefydlu cysylltiadau cadarnhaol â rhaglenni a rhwydweithiau Cysylltu â Gwaith/Cyflogaeth â Chymorth eraill i rannu arferion gorau
- Meithrin diwylliant o ddysgu, datblygu a thyfu, gan fagu gwybodaeth a sgiliau'r tîm darparu drwy annog a hwyluso cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Ymgysylltu â'r holl weithgareddau hyfforddiant a datblygu yn ôl yr angen i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus
- Datblygu a gweinyddu gwasanaeth
- Gweithio o fewn systemau rheoli ansawdd priodol i sicrhau gwasanaeth cyson ac o ansawdd i gleientiaid
- Sicrhau bod protocolau a hyfforddiant diogelu'r tîm yn gyfredol a chefnogi aelodau o'r tîm i godi materion yn ôl yr angen;
- Gweithio o fewn ffiniau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a chanllawiau neu ddeddfwriaeth berthnasol arall wrth ymdrin â gwybodaeth am gyfranogwyr a chyflogwyr;
- Gweithio'n rhagweithiol yn unol â gwerthoedd cwmni RCS - Ymateb, Cysylltu a Chefnogi
- Unrhyw ddyletswyddau gofynnol eraill sy'n gymesur â'r swydd

Manyleb person

Hanfodol

- Safon uchel o gyflawniad addysgol
- O leiaf 3 blynedd o reoli/cydlynu prosiec
- O leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio mewn partneriaeth/ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Gweithio gyda system rheoli ansawdd, rheoli perfformiad, ac adrodd
- Profiad o weithio gyda phobl sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth
- Gwybodaeth ddatblygol gynhwysfawr am y sefyllfa cyflogaeth a sgiliau
- Lefel dda o lythrennedd digidol Sgiliau
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf ar bob lefel
- Agwedd greadigol, hyblyg, arloesol a chydweithredol
- Yn gallu gweithio'n annibynnol a defnyddio blaengarwch
- Sgiliau trefnu amser da, ac yn gweithio'n dda o dan bwysau
- Cynnal systemau gweinyddu effeithiol a threfnus
- Empathig, ddim yn beirniadu ac yn ddibynadwy
- Brwdfrydedd ac awch i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl
- Meddylfryd cadarnhaol a'r gallu i gymell pobl eraill
- Gwydn a dygn pan ddaw rhwystrau a heriau i law
- Cydwybodol a dibynadwy
- Ymrwymiad i ddysgu a pharodrwydd i ymwneud â chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb, ac ymrwymiad iddynt, a herio arferion gwahaniaethol
- Hyblygrwydd i deithio i fan hyn a fan draw yng ngogledd Cymru yn ôl yr angen

Dymunol

- Wedi gweithio yn y maes cymorth i bobl ag anableddau dysgu / iechyd meddwl
- Dealltwriaeth dda o egwyddorion ac ymarfer cyflogaeth â chymorth
- Cymraeg llafar a/neu ysgrifenedig

Gwiriadau cyn cyflogaeth

- Hawl i fyw a gweithio yn y DU
- Dau eirdaYnEr

Mae RCS wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir. Dywedwch wrthym os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar unrhyw gam o'r broses recriwtio fel y gallwn eich cefnogi i berfformio ar eich gorau.